

Ar gof a chadw?

Adroddiad ar bwy sy'n cael
eu coffáu mewn mannau
cyhoeddus

Mawrth 2021



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDGCh

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDGCh](https://twitter.com/SeneddDGCh)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2021**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Ar gof a chadw?

Adroddiad ar bwy sy'n cael
eu coffáu mewn mannau
cyhoeddus

Mawrth 2021



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDGCh

Cadeirydd y Pwyllgor:



Bethan Sayed AS
Plaid Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Mick Antoniw AS
Llafur Cymru



John Griffiths AS
Llafur Cymru



Carwyn Jones AS
Llafur Cymru



Helen Mary Jones AS*
Plaid Cymru



David Melding AS
Ceidwadwyr Cymreig

*O 26 Chwefror 2020 tan 8 Ionawr 2021, Helen Mary Jones oedd Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion.....	7
1. Cyflwyniad.....	9
Cefndir.....	9
Nod yr adroddiad hwn.....	9
Casglu tystiolaeth.....	9
2. Gweithredoedd coffáu cyfredol.....	10
Y ddadl ynghylch coffáu.....	10
Archwiliad Legall o Goffáu yng Nghymru.....	12
Yr egwyddor o gael gwared ar gerfluniau.....	14
Ein barn ni.....	15
3. Cynorthwyo cymunedau i benderfynu pwy sy'n cael eu coffáu.....	18
Ymgysylltu â chymunedau.....	18
Defnyddio meini prawf.....	19
Cynllun y Plac Glas.....	21
Canllawiau i awdurdodau lleol.....	22
I ba raddau y mae (ail-)gyd-destunoli yn briodol?.....	24
Cael gwared ar gerfluniau.....	26
Ein barn ni.....	28
4. Addysg a choffáu yn y dyfodol.....	31
Addysg ac ymwybyddiaeth.....	31
Sut yr ydym yn coffáu yn y dyfodol.....	33
Ein barn ni.....	35
Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.....	38
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	40

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r cwestiwn o bwy yr ydym yn eu cofio yn ein mannau cyhoeddus yn un sy'n cyffroi emosiynau. Mae'n ennyn syniadau o bwy oeddem ni, yn ogystal â phwy ydym ni, fel cymdeithas.

Yng Nghymru cawsom ein hysgwyd gan ddigwyddiadau haf 2020 a marwolaeth drasig George Floyd. Fe wnaeth y don o brotestiadau a gynhaliwyd yn sgil hynny danio trafodaeth ynghylch pwy rydym yn eu cofio yn ein mannau cyhoeddus.

Mae yna lawer yn ein hanes i ymfalchïo ynddo, ond ni ddylai'r balchder ein dallu i rai o'r digwyddiadau mwy amheus sydd wedi digwydd yn ein gorffennol hefyd – ac rydym yn dal i deimlo eu canlyniadau hyd heddiw.

Nod yr adroddiad hwn yw bwrw golwg strategol ar y materion yn seiliedig ar egwyddorion cyntaf. Rydym yn gwneud cyfanswm o 9 argymhelliad sy'n mynd i'r afael â'r drafodaeth gyfredol ynghylch pwy rydym yn eu coffáu. Gwelsom fod angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'n hanes – yn cynnwys rhai o'r elfennau mwy problemus a phoenus o'n hetifeddiaeth o'r gorffennol.

Cymunedau lleol a ddylai gael y gair olaf ar weithrediadau coffáu yn eu hardal. Wedi dweud hynny, rydym wedi canfod y gellid gwneud mwy i rymuso ein cymunedau i wneud penderfyniadau gyda'i gilydd ynghylch coffadwriaethau cyhoeddus presennol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau i hwyluso hyn yn cynnwys drwy gytuno ar ganllawiau newydd i gymunedau lleol.

Fe wnaethom ni edrych hefyd ar y defnydd o feini prawf ar gyfer barnu pa mor briodol yw gweithrediadau coffáu. Yn naturiol, weithiau mae natur oddrychol y penderfyniadau hyn yn ddigamsyniad. Serch hynny, credwn fod manteision amlwg i lunio meini prawf sy'n rhoi syniad da ynghylch a yw coffadwriaeth yn debygol o fod yn briodol ai peidio.

Wrth edrych ymlaen at y dyfodol, mae'r adroddiad hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i fanteisio ar egni a brwdfrydedd y drafodaeth ynghylch coffáu er mwyn cyflwyno newidiadau er gwell yn yr hirdymor. Anaml iawn, os o gwbl, y caiff llawer o grwpiau o bobl eu cynrychioli yn ein mannau cyhoeddus. Mae angen i Lywodraeth Cymru arwain sgwrs genedlaethol – mewn partneriaeth ag elusennau, awdurdodau lleol, amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth ac eraill – ar sut i fynd i'r afael â hyn.

Mae rhai wedi mynegi ofnau bod dymchwel cerfluniau'n gyfystyr â "dileu hanes". Gall yr ofnau hynny fod yn ddi-sail. Fel y dywedodd un o dystion ein hymchwiliad, Bill Jones:

"Nid hanes yw cofeb; mae gan gofeb hanes."

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn agoriad llygad ac yn her. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymchwiliad am gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gwaith pwysig hwn.

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyhoeddusrwydd i waith Archwiliad Legall o Goffáu trwy raglen o ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Tudalen 16

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfyniadau sy'n ymwneud â cherfluniau, henebion neu goffadwriaethau dadleuol i awdurdodau lleol a chymunedau. Fodd bynnag, mae rhai prosesau ac egwyddorion pwysig a ddylai fod yn berthnasol ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill arnynt. Tudalen 17

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru greu dogfen ganllaw gynhwysfawr "siop un stop" ar gyfer awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn ymwneud â gweithredoedd coffáu yng Nghymru. Dylai'r canllawiau gynnwys:

- cyngor ar arferion gorau ar gyfer ymgynghori â chymunedau lleol;
- cyngor ar ddulliau cyfranogi ar gyfer ymgysylltu â grwpiau 'anoddach i'w cyrraedd' a grwpiau lleiafrifol;
- cyngor ar gynnwys barn arbenigol, gan gynnwys haneswyr lleol.
..... Tudalen 29

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar feini prawf i'w cynnwys yn y ddogfen ganllaw y gellir eu defnyddio fel "rhestr wirio ddiagnostig" gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ar adleoli neu roi mwy o gyd-destun yn achos cerflun neu goffâd. Dylai'r rhestr wirio hon o feini prawf addasu enghreifftiau presennol o arfer da a dylai gynnwys:

- A yw'r person o arwyddocâd hanesyddol?
- A yw'r person hwn wedi cael effaith genedlaethol neu effaith gadarnhaol sylweddol ar ei faes?
- Sut yr oedd y person hwn yn cael ei ystyried ar y pryd a sut mae'n cael ei weld heddiw? A yw'n darparu enghraifft dda i bobl?
- Sut mae'r person hwn yn cael ei weld ar draws cymunedau - gan gynnwys cymunedau a grwpiau lleiafrifol?

- A yw'r person hwn wedi cyfrannu at les a hapusrwydd y cyhoedd?
..... Tudalen 29

Argymhelliad 5. Mewn achosion lle mae cerfluniau dadleuol wedi'u nodi, dylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus ymgysylltu â chymunedau lleol, arbenigwyr a haneswyr i gytuno ar ddarpariaeth mwy o wybodaeth a chyd-destun. Dylai Llywodraeth Cymru nodi safbwynt polisi clir yn hyn o beth.....Tudalen 30

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa asesiad y mae wedi'i wneud o oblygiadau ariannol tynnu cerfluniau i lawr (mewn achosion lle mae cymunedau lleol wedi clustnodi cerflun i gael ei dynnu i lawr) a sut bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff treftadaeth i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.....Tudalen 30

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi lleoliadau addas ar gyfer cerfluniau neu weithiau celf coffáu o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn.Tudalen 36

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi lleoliadau addas ar gyfer cerfluniau neu weithiau celf coffáu o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn.Tudalen 36

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i greu cynllun plac cenedlaethol newydd o goffáu cyhoeddus yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a amlinellir yn yr adroddiad hwn.Tudalen 37

1. Cyflwyniad

Cefndir

1. Ym mis Mehefin 2020 cytunodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i gynnal ymchwiliad i edrych ar y ffordd y mae ffigyrau hanesyddol yn cael eu coffáu mewn mannau cyhoeddus arwyddocaol yng Nghymru.
2. Wrth edrych ar y mater hwn roedd y Pwyllgor yn awyddus i archwilio sut mae cymdeithas yn penderfynu pwy sy'n cael eu coffáu; pa egwyddorion y gellid eu defnyddio i benderfynu ar weithredoedd coffáu; a'r broses y gellid, neu y dylid, ei dilyn os yw pobl am i enghreifftiau unigol gael eu tynnu i lawr neu eu newid.

Nod yr adroddiad hwn

3. Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n dair pennod benodol. Mae'r bennod gyntaf yn edrych ar y ddadl ynghylch gweithredoedd coffáu cyfredol yng Nghymru. Mae'r ail bennod yn edrych ar sut y gellir rhoi gwell cymorth i gymunedau ac awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin ag enghreifftiau o gerfluniau neu goffadwriaethau dadleuol. Mae'r bennod olaf yn edrych at y dyfodol ac yn cynnig syniadau ar gyfer sut dylem goffáu yn y dyfodol.

Casglu tystiolaeth

4. I gasglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, cynhaliodd y Pwyllgor ymgyngoriad rhwng 12 Awst 2020 a 26 Hydref 2020 a derbyniodd gyfanswm o 22 o ymatebion.
5. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda haneswyr, awdurdodau cyhoeddus, llywodraeth leol ac eraill.
6. Darperir rhestr lawn o dystiolaeth lafar fel Atodiad A a darperir rhestr o gyflwyniadau ysgrifenedig fel Atodiad B.
7. Hefyd, casglodd y Pwyllgor farn pobl trwy gyfres o 10 grŵp ffocws ar-lein a chytunodd i gyhoeddi crynodeb o'r grwpiau ffocws hyn ym mis Ionawr 2021.

2. Gweithredoedd coffáu cyfredol

Mae digwyddiadau diweddar wedi ennyn diddordeb o'r newydd yn ein cerfluniau, henebion a choffadwriaethau cyhoeddus eraill. I gyd-fynd â'r diddordeb newydd hwn mae cwestiynau, rhai anodd yn aml, am y gymdeithas sydd ohoni, ein synnwyr o hanes a'n perthynas â'r gorffennol.

Y ddadl ynghylch coffáu

- 8.** Gwraidd y mater hwn yw pwy sy'n cael eu coffáu, a beth sy'n cael ei goffáu yn ein mannau cyhoeddus.
- 9.** I lawer, fe wnaeth y protestiadau a gynhaliwyd ledled Cymru, y DU ac ar draws y byd yr haf diwethaf mewn ymateb i farwolaeth George Floyd danio golwg ehangach ar gerfluniau a'r unigolion sydd wedi'u hanfarwoli mewn efydd neu farmor.
- 10.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth bwerus yn ymwneud â'r angen am fwy o gydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o'r rôl y mae hiliaeth a chamfanteisio wedi'i chwarae yn y gorffennol, gyda chanlyniadau hyn i'w gweld o hyd yng Nghymru heddiw. Dangosodd Hadassah Radway o Race Council Cymru y pwynt trwy ddisgrifio ei phrofiadau ei hun:

"I am of Jamaican descent; I was born in Jamaica and I am a descendant of the slaves. So, my ancestors went through the atrocities of the human indignity that happened to our people. And my parents came here after being invited to come and work [...] However, throughout our lives and my life in Wales—and I must say I love being in Wales, I love living here, but, throughout that period of time, even as an educated person, there is still this underlying factor that black people, being me, are not given the same latitude, the same dignity as white British, white Europeans, and all of that stems from slavery, the enslavement of African people.

And these statues that we have now, and street names after these people who benefited from enslaving others and cruelly beat them, and getting proceeds from that, I think is repugnant, it's abhorrent, it still has an impact on black people. And when we see these statues, when we see these street names, I believe that, from grass roots, they

will say the impact they have on their mental health and well-being, because these remind us that there was this time in history when we were treated as cattle, when we were treated as shackles, when we were treated as property. And the people who were complicit in that have been commemorated with great honour and privilege. So, for me, it started an impact, and I think that we need to be looking at how does this still affect people—black people—in this country and worldwide.”¹

11. Dywedodd yr Athro Merfyn Jones fod y ffrwydrad rhyfeddol o brotest ac o drafod a dadlau sydd wedi digwydd ar y naill ochr a'r llall o'r Iwerydd yn dangos nad yw Cymru a'r DU wedi dod i delerau ag effaith anhygoel caethwasiaeth a masnachu caethweision ar economi Prydain² a rôl Prydain fel pŵer ymerodrol.

12. Cytunodd pob un o'r haneswyr a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fod ystod o faterion cymhleth yn gysylltiedig â choffáu cyhoeddus. Dywedodd yr Athro Merfyn Jones wrthym ei fod yn amheus ynglŷn â gwerth cerfluniau cyhoeddus ac mai arwyr heddiw yw dihirod yfory.³

13. Yn yr un modd, nododd yr Athro Bill Jones:

“Er bod gen i gefndir mewn treftadaeth, rwy'n amheus pa mor werthfawr yw cerfluniau, a faint o bobl sy'n talu sylw iddyn nhw. Rwy'n credu mai un mater yma yw bod rhai o'r cerfluniau a'r cofebion hyn, am resymau hanes, mewn safleoedd amlwg iawn, a gall rhai ohonynt greu diffyg teimlad, a bod y teimlad hwnnw'n cael ei amlygu oherwydd bod y cerfluniau hyn mewn safleoedd amlwg yn ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi.”⁴

14. Dadleuodd Dr Sarah May o Brifysgol Abertawe fod yr arfer o gerfluniau cynrychioliadol o unigolion fel dull o goffáu mewn gofod cymunedol yn dyddio'n bennaf o'r ddeunawfed ganrif a bod rhan ohoni sydd eisiau dweud bod yn rhaid i ni roi'r gorau i'r holl syniad o'r math hwnnw o goffáu fel rhywbeth dibwynt a cheisio edrych ar sut arall y gallem ddefnyddio ein mannau cyhoeddus i gynrychioli gwerthoedd cymunedol ein hoes.⁵

¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 121 i 122 - 3 Rhagfyr 2020

² Cofnod y Trafodion, paragraffau 61 a 62 - 26 Tachwedd 2020

³ Cofnod y Trafodion, paragraff 16 - 26 Tachwedd 2020

⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 19 - 26 Tachwedd 2020

⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 15 - 10 Rhagfyr 2020

15. Yn yr un modd, bu cyfranogwyr grwpiau ffocws y Pwyllgor yn mynd i'r afael â'r anawsterau wrth benderfynu pwy sy'n cael eu coffáu ac roedd y safbwyntiau a fynegwyd yn aml yn adlewyrchu sbectwm eang o farn.⁶

Archwiliad Legall o Goffáu yng Nghymru

16. Cyn cychwyn ar yr ymchwiliad hwn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i ddarganfod a ellid creu rhestr o gerfluniau yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddodd y Prif Weinidog fod Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei greu i fod yn gyfrifol am gynnal "archwiliad o henebion cyhoeddus, enwau strydoedd ac adeiladau yng Nghymru sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethion a'r Ymerodraeth Brydeinig".⁷ Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys haneswyr, academyddion a chynrychiolwyr llywodraeth leol ac yn cael ei gadeirio gan Gaynor Legall.

17. Cyhoeddwyd Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 26 Tachwedd 2020. Yn y Datganiad Ysgrifenedig cysylltiedig, dywedodd y Prif Weinidog fod yr "archwiliad wedi dangos bod y fasnach mewn caethweision a chamfanteisio trefedigaethol wedi'u gwreiddio yn economi a chymdeithas ein cenedl".⁸

18. Canfu archwiliad Legall gyfanswm o 209 o henebion, adeiladau neu enwau strydoedd, a leolir ym mhob rhan o Gymru, sy'n coffáu pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chaethwasiaeth a'r fasnach mewn caethweision neu a oedd wedi gwrthwynebu ei diddymu.⁹ Roeddent yn cynnwys:

- 13 o henebion, adeiladau, neu enwau strydoedd yn coffáu pobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision o Affrica;
- 56 o henebion, adeiladau, neu enwau strydoedd yn coffáu pobl a oedd yn berchen ar neu'n elwa'n uniongyrchol ar blanhigfeydd neu fwyngloddiau lle'r oedd caethweision yn gweithio;
- 120 o henebion, adeiladau, neu enwau strydoedd yn coffáu pobl a wrthwynebodd dileu'r fasnach mewn caethweision neu gaethwasiaeth;

⁶ Crynodeb Grwpiau Ffocws

⁷ Llywodraeth Cymru, 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru'

⁸ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig, 26 Tachwedd 2020

⁹ Llywodraeth Cymru, 'Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru'

- 20 o henebion, adeiladau, neu enwau strydoedd yn coffáu pobl a gyhuddwyd o droseddau yn erbyn pobl dduon, yn enwedig yn nhrefedigaethau Affrica.

19. O ran y fethodoleg ar gyfer adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, eglurodd Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw, fod yr holl wybodaeth eisoes yn gyhoeddus ac wedi'i chymryd o ddeunydd gwreiddiol.¹⁰

20. Cytunodd llawer o'r tystion a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor fod archwiliad Legall yn ddarn pwysig a gwerthfawr o waith.

21. Yn ystod sesiwn y Pwyllgor gyda Race Council Cymru a Mae Bywydau Du o Bwys, croesawodd tystion ar ran y ddau sefydliad yr archwiliad fel cam i'r cyfeiriad cywir.¹¹ Fodd bynnag, rhybuddiodd y ddau y dylai hyn, yn eu barn hwy, nodi dechrau yn hytrach na diwedd y broses. Esboniodd Nelly Adams o'r grŵp ymgyrchu Mae Bywydau Du o Bwys:

“[...] the audit, I think, is purely raising awareness at the moment; I wouldn't say that the audit is of great benefit or has done anything. However, as far as I'm concerned right now, all the audit has done is highlighted how many slave owners are being commemorated in and around Wales and also street names—everything else that goes with it. But, I mean, a good start—it's a good starter for 10, as far as I'm concerned.”¹²

22. Yn ystod sesiwn y Pwyllgor gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Cadw, cytunodd Gaynor Legall ei bod yn amhriodol bod 13 coffâd i bobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision yng Nghymru ac mai pwrpas ei harchwiliad oedd deall yn well rôl yr unigolion hynny.¹³ Cydnabu hefyd y byddai angen gwneud mwy o waith ar ôl cyhoeddi'r archwiliad.¹⁴

23. Ymhellach, soniodd am yr effaith yr oedd hi'n gobeithio y byddai'r archwiliad yn ei chael o ran y ddadl:

“[...] we are all sinners and saints, and I think we're at a point in the development of our understanding of the world that we live in where

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 17 - 3 Rhagfyr 2020

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 112 - 3 Rhagfyr 2020

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 114 - 3 Rhagfyr 2020

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 9 - 3 Rhagfyr 2020

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 27 - 3 Rhagfyr 2020

we're more open to hearing a full truth—you know, a warts-and-all approach. So, I think the time is right for us to give all the information about individuals that have been commemorated, and allow people to have that discourse and to come to conclusions. I would guess that there will not be a clear conclusion about lots of them, but the conversation is needed. I think the conversation will be beneficial to our understanding of what we mean by equity and diversity, as well.”¹⁵

Yr egwyddor o gael gwared ar gerfluniau

24. Clywodd y Pwyllgor sbectrwm o safbwyntiau ynghylch yr egwyddor o gael gwared ar gerfluniau yn amrywio o wrthwynebiad llwyr i dynnu unrhyw gerfluniau i lawr i eraill a oedd yn cwestiynu holl bwrpas a pherthnasedd cerfluniau.

25. Derbyniodd y Pwyllgor 21 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan unigolion, gyda'r mwyafrif llethol ohonynt yn gwrthwynebu'r awgrym o gael gwared ar henebion cyhoeddus ac yn gwrthwynebu bod y Pwyllgor yn gwneud y gwaith hwn.¹⁶ Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddaeth i law yn cynnwys gwrthwynebiadau ar seiliau egwyddorol a dadleuon bod gwneud hynny yn gyfystyr â dileu'r gorffennol.¹⁷

26. Nododd un unigolyn:

“Where there has been consensus in the past to erect a statue, that in itself is an historical event and fact. To think of tearing it down and erasing it is to destroy the artefact and event from historical study and preventing greater analysis and understanding for future generations.”¹⁸

27. Nododd cyflwyniad ysgrifenedig arall gan unigolyn:

“Mae cael gwared ar dreftadaeth, pa mor sarhaus bynnag, yn gosod cynsail gwael. Ni allwn ddianc rhag ein hanes na'r bodau cymhleth a'i lluniodd. Rhaid i gadw cerfluniau, enwau lleoedd a threftadaeth wrth archwilio'n llawn y straeon cymhleth pwy ydym ni a sut y daethom i fod yr ateb gorau posibl. Naill ai tynnwch bob cerflun i lawr (rwy'n siŵr y gallaf ddod o hyd i rywbeth disylwedd am unrhyw berson mewn hanes) a derbyn mai dim ond y perffaith y dylid ei goffáu, neu dderbyn

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 47 - 3 Rhagfyr 2020

¹⁶ Gweler [ymatebion i'r ymgynghoriad](#)

¹⁷ Gweler [ymatebion i'r ymgynghoriad](#)

¹⁸ [Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chymunedau, STAT02](#)

ein bod yn fodau cymhleth gyda gorffennol cymhleth ac yn arddangos y ffeithiau sy'n ymwneud â phob person.”¹⁹

28. Dadleuodd Richard Bingley o'r grŵp ymgyrchu Save Our Statues dros yr angen i ddeall ehangder gwirioneddol barn y cyhoedd sydd ar gael a'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn gryfder barn o blaid cefnogi'r dreftadaeth ddiwylliannol bresennol.²⁰

29. Mynegodd Sara Huws o Amgueddfa Merched y East End bryderon bod cerfluniau'n cael eu defnyddio "fel dirprwy i drafod materion gwleidyddol y dydd". Dywedodd Ms Huws:

"[...] rydyn ni'n gofyn, efallai, fan hyn, i awdurdodau lleol wneud rhyw safiad moesol. Mae'r safiadau yma wedi eu gwneud yn barod. Ewch i droed unrhyw wefan awdurdod lleol a bydd datganiad yn erbyn caethwasiaeth ddynol, er enghraifft. Mi fydd ganddyn nhw bolisïau urddas. Mi fydd ganddyn nhw bolisïau cydraddoldeb, gwrth-fwlio. Mae'r 'rhinweddau', os leiciwch chi, moesol yma wedi eu rhoi i mewn i gyfundrefnau ar hyd a lled awdurdodau lleol, ac felly dylai efallai cerfluniau ddim bod yn eithriad o hynny, ond hefyd mae yna gynsail gryf iawn i ddadwneud penderfyniadau hanesyddol. Os gymerwch chi fel cymhariaeth goed hanesyddol—coed aeddfed yn rhywle fel Caerdydd—dŷn ni'n gwybod eu bod nhw'n dda i ni, does yna ddim un ohonyn nhw wedi gwerthu caethwas yn eu bywyd. Mae pobl yn gwrthwynebu eu tynnu nhw i lawr ac yn gwneud lot o sŵn am hynny, ond mae cynghorau yn dal i wneud hynny. Felly, os dŷch chi'n edrych ar rywbeth fel yna, sydd yn sicr yn ased cymunedol, mae yna gynsail i ddadwneud y penderfyniadau hanesyddol yma ar hyd a lled Cymru. Felly, byddwn i'n gochel rhag trin cerfluniau fel eithriad jest achos eu bod nhw mor symbolaidd.”²¹

Ein barn ni

Mae'r llif o ddicter a phrotest yn dilyn marwolaeth George Floyd yn haf 2020 wedi rhoi pwysigrwydd a brys newydd i'r gwaith o asesu'r berthynas rhwng y gorffennol a'r presennol. Teimlwn fel Pwyllgor ei bod yn bwysig ailddatgan ein bod yn gwrthod ac yn condemnio hiliaeth ac anoddefgarwch yn ei holl ffurfiau

¹⁹ Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu STAT01

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 216 - 3 Rhagfyr 2020

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 31 - 10 Rhagfyr 2020

ac yn cydnabod yr angen i roi lle blaenllaw yn y ddadl i faterion anodd sy'n ymwneud â'n gorffennol.

Wrth gyflawni'r gwaith hwn, aethom ati gyda'r nod o gymryd barn strategol yn seiliedig ar egwyddorion yn gyntaf a thaflu goleuni ar y materion a sut maent yn cysylltu â Chymru.

Clywsom safbwyntiau o ddau begwn y ddadl, rhai ohonynt yn seiliedig ar honiadau bod ein cerfluniau a'n gweithiau hanesyddol dan ymosodiad. Yn ystod ein gwaith nid ydym wedi dod ar draws unrhyw dystiolaeth sy'n rhoi sail i'r honiadau hyn. Yn hytrach clywsom ddadleuon ystyriol, a phwerus yn aml, ynghylch yr angen i ymgysylltu â'r materion hyn ar y cyd.

Er bod llawer yn ein hanes i ymfalchïo ynndo, ni ddylem gilio rhag mynd i'r afael â'r cwestiynau mwy anodd yn ein gorffennol a'i ganlyniadau heddiw. At hynny, wrth ei wraidd mae cwestiynau moesol pwysig a chymhleth weithiau ac mae'n amlwg i ni y dylai naws y ddadl ar y mater hwn adlewyrchu'r difrifoldeb a'r cymhlethdod hwn.

Nid yw Cymru a'r DU wedi gwneud digon i ddod i delerau ag effaith caethwasiaeth, nac wedi llawn ystyried ganlyniadau'r ymerodraeth ar ein hanes. Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn nodir rhai syniadau ynghylch sut y gellir unioni hyn.

Mae archwiliad Legall o goffáu yn ddarn hanfodol o waith ac yn gam cyntaf pwysig i wella ein dealltwriaeth o sut mae gorffennol Cymru yn siapio'r presennol. Heb os, bydd hefyd yn ein tywys wrth i ni geisio llunio'r dyfodol. Nodwn fod yr adroddiad yn nodi 13 coffâd i bobl a oedd yn rhan o'r fasnach mewn caethweision yn Affrica yng Nghymru heddiw. At hynny, nodwn fwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r archwiliad fel man cychwyn ar gyfer gwaith pellach ar y pwnc hwn. Rydym yn cytuno y dylai'r gwaith pellach hwn gynnwys rhaglen o ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth.

Awdurdodau lleol a chymunedau a ddylai fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â cherfluniau, henebion neu goffadwriaethau dadleuol yn y pen draw. Fodd bynnag, mae rhai prosesau ac egwyddorion pwysig yn enwedig o ran ymgynghori ac ymgysylltu, y credwn y dylent fod yn berthnasol ac rydym ni'n amlinellu'r rhain ym mhenodau diweddarach yr adroddiad.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru roi cyhoeddusrwydd i waith Archwiliad Legall o Goffáu trwy raglen o ymgysylltu â chymunedau a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfyniadau sy'n ymwneud â cherfluniau, henebion neu goffadwriaethau dadleuol i awdurdodau lleol a chymunedau. Fodd bynnag, mae rhai prosesau ac egwyddorion pwysig a ddylai fod yn berthnasol ac y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth ac arweiniad i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill arnynt.

3. Cynorthwyo cymunedau i benderfynu pwy sy'n cael eu coffáu

Dylai cymunedau fod wrth wraidd penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu yn ein mannau cyhoeddus ond clywsom alwadau am fwy o arweinyddiaeth a fframwaith i helpu i lunio'r penderfyniadau hynny.

Ymgysylltu â chymunedau

30. Derbyniodd y Pwyllgor lawer iawn o dystiolaeth a oedd yn galw am ymgynghori ystyrlon â chymunedau ar yr hyn y dylid ei wneud o ran coffáu cyhoeddus, yn enwedig mewn achosion lle mae cerfluniau problemus neu ddadleuol.

31. Pwysleisiodd yr hanesydd Abu-Bakr Madden Al-Shabazz fod ymgysylltu â chymunedau lleol yn allweddol a thynnodd sylw at ddiffygion yn y driniaeth o gerflun Edward Colston ym Mryste fel gwers i awdurdodau cyhoeddus. Dywedodd Mr Al-Shabazz:

“I do know, personally in Bristol, there have been debates with the local councils and with heritage—and all these other types of organisations in order for it to come down. And the local people of Bristol were not listened to. This is the thing—they were just not listened to. And many of the people in those seats of position were either voted in by them or whatever the case may be. So, there needs to be more moral responsibility taken by people who are put in those positions. And if they're in the position of responsibility, they need to be in the position of accountably as well, not brushing it to one side.”²²

32. Yn yr un modd, dywedodd Dr Simon John o Brifysgol Abertawe ei fod o'r farn mai'r hyn a all atal y math hwnnw o rwystredigaeth gydag enghraifft benodol rhag cyrraedd penllanw yw bod proses fwy clir i gymuned o bobl ynglŷn â sut y gallant gofrestru eu hanniddigrwydd neu eu hanfodlonrwydd gyda henebion penodol neu ynghylch y ffordd y maent yn peri sarhad iddynt.²³

²² Cofnod y Trafodion, paragraffau 163 + 164 - 26 Tachwedd 2020

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 209 - 26 Tachwedd 2020

33. Dadleuodd yr Athro Martin Johnes o Brifysgol Abertawe hefyd fod cerflun Colston wedi ei ddymchwel ym Mryste oherwydd na wnaeth yr awdurdod lleol ymateb, dros gyfnod o flynyddoedd lawer, i ymatebion gan y gymuned leol i wneud rhywbeth yn ei gylch. Ychwanegodd yr Athro Johnes:

“Maybe the best thing that can come out of this is instructions to local authorities that history is controversial and it is emotional, and people’s daily lives are affected by the way that their history and our collective history is presented, and if a complaint is made to a local or national authority, it should be taken seriously and listened to. That doesn’t mean that it has to be acted upon, because people will complain about all kinds of different things, but authorities have to listen.”²⁴

34. Pwysleisiodd Richard Bingley o Save Our Statues bwysigrwydd ymgynghori â chymunedau lleol wrth bennu unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â cherfluniau a henebion.²⁵

35. Tanlinellodd Sara Huws bwysigrwydd ymgynghori ac osgoi “cyfranogaeth docenistig” gan y gymuned mewn gweithgareddau o’r fath.²⁶

36. Wrth ystyried y camau nesaf ar gyfer archwiliad Legall, eglurodd Gwilym Hughes, Cyfarwyddwr Cadw fod aelodau’r grŵp gorchwyl a gorffen yn bendant iawn bod angen elfen sylweddol o ymgynghori cyhoeddus a bod angen i’r cyhoedd fod yn rhan o’r penderfyniadau hyn ynghylch pa gamau y dylem eu cymryd wrth ddelio â choffadwriaethau dadleuol o bosibl.²⁷

37. Teimlai cyfranogwyr grwpiau ffocws y Pwyllgor fod angen “proses dryloyw ac agored” wrth adolygu coffadwriaethau cyfredol neu yn y dyfodol ac y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu ymddiried mewn awdurdodau cyhoeddus.²⁸

Defnyddio meini prawf

38. O ran cylch gorchwyl yr ymchwiliad hwn, gofynnodd y Pwyllgor i bobl gyflwyno eu barn ar y canlynol:

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 163 - 26 Tachwedd 2020

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraffau 211; 216 -218 – 3 Rhagfyr 2020

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 103 - 10 Rhagfyr 2020

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 52 – 3 Rhagfyr 2020

²⁸ Crynodeb Grwpiau Ffocws

“Pa egwyddorion y dylid eu dilyn pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn penderfynu pa unigolion y dylid eu coffáu mewn manau cyhoeddus? Sut ddylen nhw ystyried materion fel y rhai canlynol:

- Arwyddocâd hanesyddol y person,
- Dylanwad parhaus y person
- Effaith genedlaethol y person,
- Effaith y person dan sylw ar briod faes y person,
- Beth oedd y farn am y person ar y pryd,
- A yw'r person yn esiampl dda i bobl heddiw,
- Arwyddocâd pensaernïol yr heneb,
- Effaith y weithred goffáu ar grwpiau lleiafrifol a safbwyntiau.”²⁹

39. Roedd y safbwyntiau ynghylch mabwysiadu meini prawf sefydlog ar gyfer barnu gweithredoedd coffáu yn gymysg ac yn amrywio o'r rhai a oedd yn cefnogi dull arfaethedig y Pwyllgor, i'r rhai a oedd yn cwestiynu defnyddioldeb dull o'r fath.

40. Yn eu cyflwyniad ysgrifenedig, cymeradwyodd Archif Merched Cymru restr arfaethedig y Pwyllgor o feini prawf gan ddadlau y dylid gwneud penderfyniadau ar sail “meini prawf sefydlog a rhestr o reolau sefydlog”.³⁰

41. Roedd y Cynghorydd Cefin Campbell, Aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin o blaid defnyddio meini prawf sefydlog er ei fod yn cydnabod y gallai hyn fod yn anodd oherwydd bod ein barn am enwogion yn rhywbeth goddrychol.³¹

42. Roedd yr Athro Martin Johnes, Dr Simon John o Brifysgol Abertawe ac Abu-Bakr Madden Al-Shabazz i gyd yn dadlau yn erbyn defnyddio set o feini prawf sefydlog ar gyfer penderfynu pwy sy'n cael eu cofio. Yn hytrach, roeddent yn dadlau y dylid barnu pob gweithred goffáu ar sail ei rhinweddau ei hun.³²

²⁹ <https://busnes.senedd.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=404&RPID=1022038104&cp=yes>

³⁰ **STAT14 - Archif Merched Cymru (Dwyieithog)**

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 151 - 10 Rhagfyr 2020

³² Cofnod y Trafodion, paragraffau 144 +145; 149; 151 - 26 Tachwedd 2020

43. Roedd Bill Jones, Athro Emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd, o blaid defnyddio meini prawf sefydlog yn gyffredinol gan farnu pob achos ar sail ei deilyngdod ei hun hefyd.³³ Roedd yr Athro Merfyn Jones hefyd yn cefnogi defnyddio meini prawf i “arwain sut y dylai pobl ddod i benderfyniad” ond rhybuddiodd rhag bod yn “rhy haearnaidd”.³⁴

44. Dadleuodd Dr Sarah May yn erbyn defnyddio meini prawf sefydlog gan nodi bod cael setiau sefydlog o feini prawf yn awgrymu bod ymateb sefydlog i ofod coffáu, ac roedd hi o'r farn nad yw'n ddoeth mynd ar drywydd y llwybr hwnnw.³⁵ Yn yr un modd mynegodd Helen Molyneux³⁶ y pryderon canlynol:

“the danger with any set criteria is that, (a), you lose the creativity in the process, and secondly, I think it then becomes too bureaucratic.”³⁷

45. Tynnodd Sara Huws sylw at enghraifft Namibia sydd, ers ennill annibyniaeth ym 1994, wedi bod yn delio â gwaddol cerfluniau ei gwladychwyr. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai yr ymadrodd maen nhw wedi'i ddefnyddio yn eu rhesymeg yw nad yw'r ffigyrau hyn yn ddigon arwyddocaol mwyach i haeddu cerflun - “these are figures that are no longer of monumental significance”. Ychwanegodd:

“when we're talking about what we're doing with a statue, it isn't about erasing history, it's not about deleting these people. It's to say, 'Of course, these people played a role in history, but they're not the people who we literally put on a pedestal anymore'.”³⁸

46. Cytunodd Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw fod sefydlu meini prawf yn opsiwn heb os ond bod ymgynghoriad cyhoeddus llawer ehangach i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cefnogi gan gymunedau lleol hefyd yn bwysig iawn, iawn hefyd.³⁹

Cynllun y Plac Glas

47. Dywedodd Richard Suggett, o'r Comisiwn Brenhinol Henebion ('y Comisiwn Brenhinol'), fod meini prawf a chanllawiau bras eisoes yn cael eu defnyddio mewn

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 22 - 26 Tachwedd 2020

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 35 - 26 Tachwedd 2020

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 94 - 10 Rhagfyr 2020

³⁶ DS: Cyflwynodd Helen Molyneux ei barn mewn rhinwedd bersonol

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 96 - 3 Rhagfyr 2020

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 64 - 10 Rhagfyr 2020

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 59 - 3 Rhagfyr 2020

rhannau eraill o'r sector. Tynnodd Mr Suggett sylw at enghraifft gynllun London Blue Plaque, a gyflwynwyd gyntaf gan Gyngor Llundain Fwyaf ac sydd bellach yn cael ei redeg gan English Heritage. Esboniodd Mr Suggett:

“There are three or four principal criteria. One is that the person nominated has to be reasonably well known, has to have some sort of public profile, public presence. The second one is really very interesting, and that is the person nominated has to have made a contribution to the well-being and happiness of the public. That's a very interesting one. And thirdly, the person nominated has to have made some achievement in his or her own field.

Now, they do rule out some categories. They're against tokenism. The person nominated has to make an achievement in his or her own field... Then the nominations go to a panel. The panel is composed of historians ... [who] sift the applications and then further research is required to firm them up, and within two years a plaque can be awarded.”⁴⁰

48. Awgrymodd Mr Suggett, er bod y maen prawf o gyfraniad at les a hapusrwydd yn un heriol, mae'n un y gellid elwa o'i fabwysiadu.⁴¹

49. O ran y broses, gall y cyhoedd gyflwyno enwebiadau, yn unol â **meini prawf gwerthuso English Heritage**. Bydd unrhyw enwebiadau sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu hystyried gan y **Panel Placiau Glas** o arbenigwyr, sy'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn.

Canllawiau i awdurdodau lleol

50. Clywodd y Pwyllgor alwadau am arweiniad ar sut y dylai awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cerfluniau a phenderfynu ar enwau lleoedd, ddelio â choffáu unigolion dadleuol.

51. Un o'r unigolion hanesyddol sy'n cael eu coffáu yng Nghymru sydd wedi derbyn llawer o ddiddordeb cyhoeddus yw Syr Thomas Picton. Ef oedd y swyddog rheng uchaf i farw ym Mrwydr Waterloo ac fe'i hystyriwyd yn arwr rhyfel gan bobl

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 240 - 242 - 3 Rhagfyr 2020

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 264 - 3 Rhagfyr 2020

Cymru.⁴² Fodd bynnag, mae tystiolaeth o droseddau a chreulondeb yn ystod ei gyfnod fel Llywodraethwr Trinidad hefyd wedi ysgogi ailasesiad o'i waddol.

52. Yng Nghaerdydd, yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor, mae cerflun i Picton yn Neuadd y Ddinas wedi'i orchuddio tra bod yr awdurdod yn aros am ganiatâd Cadw i gael gwared ar y cerflun yn gyfan gwbl.⁴³

53. Mae cofeb arall i Picton - obelisc yng Nghaerfyrddin - hefyd wedi bod yn destun dadl. Siaradodd y Cyngorydd Cefin Campbell o Gyngor Sir Caerfyrddin â'r Pwyllgor ynghylch ei brofiadau. Esboniodd fod yr awdurdod lleol - mewn ymateb i gryn ddiddordeb gan y cyhoedd - wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda chylch gorchwyl eang o edrych ar hiliaeth, cynrychiolaeth ac amrywiaeth mewn nifer o feysydd fel cwricwlwm yr ysgol a recriwtio.⁴⁴ Yn benodol, o ran heneb Picton, ymgynghorodd yr awdurdod lleol â thrigolion trwy gyfrwng holiadur a derbyniodd bron 2,500 o ymatebion.⁴⁵

54. Nododd y Cyngorydd Campbell ei farn:

“I think, all local authorities, would welcome some clear guidance on how local authorities in the future should undertake consultations like this, or should go about tackling some of the issues around public commemorations and statues and so on within their boundaries. It is a bone of contention; it does raise a great deal of tensions for and against, so clear guidance from Welsh Government, I think would be greatly welcomed.”⁴⁶

55. Yn yr un modd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wrth y Pwyllgor fod y “ffordd mae cymdeithas yn coffáu digwyddiadau hanesyddol neu unigolion drwy henebion cyhoeddus yn fater sensitif ac arwyddocaol” a chroesawodd waith y Pwyllgor gan obeithio y byddai'n “helpu i lunio polisi wrth symud ymlaen”.⁴⁷

⁴² Llywodraeth Cymru, [‘Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru’](#)

⁴³ BBC Cymru Fyw, [Caerdydd i gael gwared ar gerflun Syr Thomas Picton](#)

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 155 - 10 Rhagfyr 2020

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 141 - 10 Rhagfyr 2020

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 163 - 10 Rhagfyr 2020

⁴⁷ [Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Gwybodaeth Ychwanegol](#)

56. Gan fyfyrir ar y profiad, amlinellodd y Cynghorydd Campbell rai o'r anawsterau posibl wrth drin pwnc mor emosiynol:

"[...] fe gawsom ni lawer iawn, iawn o bobl gyda chefnidir milwrol yn ysgrifennu atom ni. Dwi'n adnabod rhai ohonyn nhw'n bersonol, ac mae gen i'r parch mwyaf atyn nhw fel unigolion, ac roedden nhw'n gwbl ddidwyll yn credu bod yn rhaid i ni edrych ar Picton yn unig fel arwr milwrol, a bod gwneud unrhyw beth i dynnu sylw oddi wrth hynny yn gwneud cam â'r cefndir milwrol yna, a gan eu bod nhw wedi bod yn aelodau o'r lluoedd arfog neu o'r llynges neu beth bynnag, eu bod nhw'n teimlo bod unrhyw sarhad ar Picton yn sarhad ar eu galwedigaeth nhw fel cynfilwyr ac yn y blaen. Ac roeddwn i'n derbyn hynny fel safbwynt diffuant iawn. Ond, wrth gwrs, beth geisiom ni ddadlau oedd, ie, mae'n rhaid i ni dderbyn bod Picton yn arwr milwrol, ond allwn ni ddim ag anghofio chwaith bod ganddo fe hanes gwahanol, mwy lliwgar, ond hanes sy'n ymwneud â chreulondeb a thrais yn erbyn caethweision a'i bod hi'n annheg ac yn anfoesol i ni, a dweud y gwir, anghofio'r rhan yna o'i hanes e."⁴⁸

57. Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS, wrth y Pwyllgor fod CLILC wedi bod yn rhan o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru ar Goffáu ac wedi gofyn a allai ddarparu cyngor ac arweiniad, oherwydd bod llawer o awdurdodau lleol yn cynnal yr adolygiadau hynny.⁴⁹

I ba raddau y mae (ail-)gyd-destunoli yn briodol?

58. Cafwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch i ba raddau y dylid defnyddio ail-gyd-destunoli yn achos cerfluniau neu goffadwriaethau dadleuol er bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn cefnogi darparu mwy o wybodaeth wrth ochr cerfluniau a chofebion eraill.

59. Dadleuodd yr Athro Deian Hopkin dros lawer mwy o gyd-destunoli yn achos cerfluniau dadleuol neu gynhennus trwy ddefnyddio technoleg ddigidol.⁵⁰

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 186 - 3 Rhagfyr 2020

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 53 - 28 Ionawr 2021

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 79 - 26 Tachwedd 2020

60. Mynegodd yr hanesydd Abu-Bakr Madden Al-Shabazz ei gefnogaeth - mewn achosion lle mae cerfluniau dadleuol yn parhau - er mwyn ail-gyd-destunoli â gwir naratif.⁵¹

61. Tynnodd Dr Simon John, o Brifysgol Abertawe, sylw at rai o'r anawsterau sy'n gynhenid yn y broses ail-gyd-destunoli:

“Adding a plaque that explains who the person—if it’s a controversial figure—was; what they did that might be considered positive; what might be considered negative—again, this is a subjective process where things are up for debate. Do you say that Picton was a heroic warrior first or do you say he was a slave trader first? It comes down to that level. So, just to flag up, I’m not offering any easy solutions for any particular monument, and again I’d emphasise each monument deserves to be considered on its own merits. But, just to emphasise that each step and each solution offers pitfalls in terms of how you actually apply this process of contextualisation.”⁵²

62. Yn ei gyflwyniad ysgrifenedig, dadleuodd Dr Nick Hodgkin os oes cerfluniau problemus yn parhau, y dylid ychwanegu rhywfaint o gydnabyddiaeth o'r cyd-destunau ehangach - esboniad o'r ddadl neu'r hanes cynhennus.⁵³

63. Yn achos Syr Thomas Picton yng Nghaerfyrddin, daeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr awdurdod lleol i'r casgliad y dylai'r gofeb aros, ac na ddylid newid ei diben, ei hailenwi na'i newid. Fodd bynnag, roedd y Grŵp yn cydnabod bod angen cymryd camau fel mater o flaenoriaeth i adlewyrchu digwyddiadau byd-eang diweddar a'r ailystyriaeth a fu yn sgil hanes Syr Thomas Picton. Argymhellodd y Grŵp y dylid gosod byrddau gwybodaeth newydd mewn lle amlwg gyda gwybodaeth am ei yrfa filwrol yn ogystal â'i gysylltiadau hysbys â chaethwasiaeth.⁵⁴

64. Dywedodd Jane Hutt AS wrth y Pwyllgor y gallai sut yr ydym yn dehongli cerfluniau a choffadwriaethau eraill yn ddigidol fod yn allweddol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“We’ve already mentioned the fact that we can now, with digital means, have QR codes and we can have interpretation. That was

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 142 - 26 Tachwedd 2020

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 186 - 26 Tachwedd 2020

⁵³ [Y Pwyllgor Diwydiant, y Cymraeg a Chyfathrebu STAT06](#)

⁵⁴ [Cyngor Sir Caerfyrddin 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth \(Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig\) - Adroddiad Interim' \(Saesneg yn unig\)](#), Tachwedd 2020

considered in the audit and you will be considering it yourselves in terms of what you do about existing memorials ... is it appropriate there, and if it is, is there going to be some explanation of the historical relevance in the interpretation. That should be certainly part of the scope of the next phase of work. Because it is history and we've got to acknowledge that it's history, but can it be a tool to educate and inform our children and young people and our citizens and visitors to Wales? But not just there on its own without that kind of interpretation.”⁵⁵

Cael gwared ar gerfluniau

65. Nid oedd consensws ar y cwestiwn ynghylch beth i'w wneud â cherflun dadleuol yn dilyn penderfyniad gan gymuned leol i gael gwared arno.

66. Rhybuddiodd yr Athrawon Merfyn Jones, Bill Jones a Richard Suggett o'r Comisiwn Brenhinol yn erbyn cael gwared ar gerfluniau gyda'r bwriad o'u dinistrio.⁵⁶

67. Mewn ymateb i gwestiwn o sut mae gwledydd eraill wedi delio â chael gwared ar gerfluniau nododd yr Athro Deian Hopkin:

“Ond hynny ydy, dwi yn credu bod gwledydd eraill wedi bod yn llawer mwy ymwybodol o hyn. Mae'r Almaen wedi bod yn llawer mwy ymwybodol o hyn achos maen nhw wedi gorfod wynebu hanes anodd dros ben, ac felly, maen nhw wedi gwneud hyn. Dyw rhai gwledydd, yn anffodus, ddim wedi wynebu hyn, a gallaf feddwl am rai gwledydd yn nwyrain Ewrop sydd efallai yn llithro yn ôl yn eu hymwybyddiaeth. Ac efallai mae'n bwysig ein bod ni yn sylweddoli mai rhywbeth byd-eang ydy hyn. [...] mae'n rhaid inni gael enghreifftiau o'r ffordd orau i ddelio â hyn a sylweddoli, ym mhob gwlad, bod yna ddadl. Ym mhob gwlad mae yna bobl sydd yn moyn cadw'r cerfluniau a phobl sydd yn moyn cael gwared arny'n nhw.”⁵⁷

68. Amlygodd rhai tystion, gan gynnwys Sara Huws a Simon John, broblemau posibl gydag adleoli cerfluniau dadleuol i amgueddfeydd. Esboniodd Sara Huws, oherwydd toriadau ariannol i'r sector treftadaeth, bod angen i amgueddfeydd fod yn ddoeth iawn, iawn yn yr hyn maent yn ei gaffael. Dywedodd Sara Huws:

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 46 - 28 Ionawr 2021

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 88, 89, a 91 - 26 Tachwedd 2020; paragraff 289 - 3 Rhagfyr 2020

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 96 - 26 Tachwedd 2020

“There’s been a lot of inflated discussion about these statues, but I wonder, again, two years down the line, how many people really would want to see this? Would it be a headliner exhibition that people would be queuing around the corner to see? Would museum, library and gallery budgets be better placed—? Would it be more cost efficient to do something different?”⁵⁸

69. Dadleuodd Dr Simon John y gallai gosod cerfluniau dadleuol mewn parc neu amgueddfa fod yn gyfystyr â symud y broblem a thynnodd gymhariaeth â phrofiad Gwlad Belg wrth fynd i'r afael â'i hetifeddiaeth drefedigaethol.

Dywedodd Dr John:

“[...]one solution that’s been put forward in some instances is: okay, when you have a problematic monument, pack it up and move it to a museum. In the case of Picton, just across the road to the national museum, that’s an option. What closer study, what closer critical analysis of this—particularly in the Belgian context—would show is that this just moves the problem to a different place. It doesn’t solve it. So, museums themselves, they’re not neutral, unreflective institutions; they have political agendas to fulfil as well.

A case in point is that, in central Brussels, there’s a 100-year-old museum devoted to the Belgian colonialist experience in Africa, and for a long time, this was a museum intended to justify and legitimise that experience. It’s only in the past few years that the authorities in Belgium have started to say, ‘Well, actually, this museum in itself needs to be decolonised.’ So, I sense the relocation-to-a-museum solution might seem, on the face of it, to be a good and appropriate proceeding. In fact, I think what you’re doing is you’re deferring the debate—you’re parking it in a different location.”⁵⁹

70. Roedd cynrychiolwyr Race Council Cymru a Mae Bywydau Du o Bwys yn cefnogi'r cysyniad o gael gwared ar gerfluniau o ormeswyr.⁶⁰

71. Dywedodd yr Athro Martin Johnes nad oedd ganddo unrhyw broblem o gwbl gyda chael gwared ar gerflun neu ei ddinistrio a'n bod yn dymchwel

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 83 - 3 Rhagfyr 2020

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 184 + 185 - 26 Tachwedd 2020

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 132 - 3 Rhagfyr 2020

adeiladau hanesyddol drwy'r amser.⁶¹ Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod amgueddfeydd yn cael trafferth gyda chyllid a chyda gofod ac os ydym yn cael gwared ar gerflun oherwydd ei fod yn achosi sarhad i gymunedau, oni bai bod ganddo werth artistig mawr ynddo'i hun, holodd a oes unrhyw beth o'i le â'i waredu.⁶²

72. Yn yr un modd, awgrymodd Helen Molyneux oni bai bod gan gerflun werth artistig ynddo'i hun, yna dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried defnyddio'r deunyddiau neu'r arian y gellid eu cael o'i waredu i wneud pethau gwell a mwy creadigol.⁶³

Ein barn ni

Ymgysylltu ac arweiniad

Cawsom gyfoeth o dystiolaeth a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgynghori'n iawn ac ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau yn achos cerfluniau neu goffadwriaethau dadleuol.

Yn unol â'n barn mai cymunedau lleol a ddylai fod â'r awdurdod i wneud y penderfyniad terfynol, byddem yn dadlau y gellid gwneud mwy i rymuso cymunedau i ddod i benderfyniadau ar y cyd am goffadwriaethau cyhoeddus a oedd eisoes yn bodoli yn eu hardal.

Mae angen mwy o gefnogaeth ar awdurdodau lleol a chymunedau i ddelio â'r materion hyn. Rydym yn cymeradwyo Cyngor Sir Caerfyrddin am fynd i'r afael â'r mater yn ei ardal trwy ymgysylltu â'r gymuned yn ystyrlon a nodwn fod awdurdodau lleol eraill yn cynnal ymarferion tebyg.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru greu dogfen ganllaw gynhwysfawr "siop un stop" ar gyfer awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yn ymwneud â gweithredoedd coffáu yng Nghymru. Dylai'r canllawiau gynnwys:

- cyngor ar arferion gorau ar gyfer ymgynghori â chymunedau lleol;
- cyngor ar ddulliau cyfranogi ar gyfer ymgysylltu â grwpiau 'anoddach i'w cyrraedd' a grwpiau lleiafrifol;

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 190 - 26 Tachwedd 2020

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 191 - 26 Tachwedd 2020

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 119 - 10 Rhagfyr 2020

- cyngor ar gynnwys barn arbenigol, gan gynnwys haneswyr lleol.

Roedd tystiolaeth gymysg mewn perthynas â chytuno ar feini prawf ar gyfer pwyso a mesur coffadwriaethau a oedd yn bodoli'n barod a rhai'r dyfodol. Er bod rhai yn dadlau y byddai dull o'r fath yn cyfyngu'n ddiangen, dadleuodd eraill y gallent chwarae rhan ystyrion wrth gefnogi cyrff cyhoeddus i ymdrin â'r materion hyn. At hynny, nodwn fod y defnydd o feini prawf eisoes yn digwydd yn y sector treftadaeth, gyda'r cynllun plac glas yn un enghraifft lwyddiannus amlwg.

Rydym yn cydnabod bod goddrychedd annatod weithiau ynghlwm wrth bwysu a mesur priodoldeb gweithredoedd coffáu. Fodd bynnag, credwn fod manteision amlwg i ddylunio meini prawf sy'n rhoi syniad da a yw coffâd yn debygol o fod yn briodol ai peidio. Gallai rhestr o'r fath ddarparu teclyn "diagnostig" neu restr wirio i'w defnyddio gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill a byddai'n helpu cymunedau lleol i wneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu.

Wrth ddatblygu'r canllawiau hyn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ymgynghori'n briodol â phartion perthnasol. Un opsiwn posibl fyddai i bwyllgor perthnasol y Chweched Senedd gynnal cynhadledd neu symposiwm yn cynnwys CLILC ac awdurdodau lleol, cyrff treftadaeth ac amgueddfeydd, elusennau, grwpiau cymunedol ac eraill i drafod y materion hyn ymhellach.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar feini prawf i'w cynnwys yn y ddogfen ganllaw y gellir eu defnyddio fel "rhestr wirio ddiagnostig" gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus perthnasol wrth benderfynu a ddylid ymgynghori ar adleoli neu roi mwy o gyd-destun yn achos cerflun neu goffâd. Dylai'r rhestr wirio hon o feini prawf addasu enghreifftiau presennol o arfer da a dylai gynnwys:

- A yw'r person o arwyddocâd hanesyddol?
- A yw'r person hwn wedi cael effaith genedlaethol neu effaith gadarnhaol sylweddol ar ei faes?
- Sut yr oedd y person hwn yn cael ei ystyried ar y pryd a sut mae'n cael ei weld heddiw? A yw'n darparu enghraifft dda i bobl?
- Sut mae'r person hwn yn cael ei weld ar draws cymunedau - gan gynnwys cymunedau a grwpiau lleiafrifol?
- A yw'r person hwn wedi cyfrannu at les a hapusrwydd y cyhoedd?

Gwaredu ac (ail-)gyd-destunoli

Ni chredwn ei bod yn anochel dinistrio cerfluniau yr ystyrir eu bod yn gynhennus ac sydd wedi'u clustnodi i gael eu tynnu i lawr o fannau cyhoeddus gan gymunedau lleol. Yn hytrach, yn y lle cyntaf byddem yn eu hannog i ystyried yn llawn yr ystod o opsiynau eraill sydd ar gael fel darparu mwy o wybodaeth a chyd-destun.

Argymhelliad 5. Mewn achosion lle mae cerfluniau dadleuol wedi'u nodi, dylai awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus ymgysylltu â chymunedau lleol, arbenigwyr a haneswyr i gytuno ar ddarpariaeth mwy o wybodaeth a chyd-destun. Dylai Llywodraeth Cymru nodi safbwynt polisi clir yn hyn o beth.

Mae peryglon ynghlwm wrth osod cerfluniau sydd wedi'u dymchwel mewn amgueddfeydd, yn enwedig mewn oes lle mae cyllidebau wedi eu rhewi neu'n crebachu. Os yw Llywodraeth Cymru yn cytuno i gefnogi cymunedau lleol i adleoli cerfluniau dadleuol i'n hamgueddfeydd, yna rhaid cael cyllid priodol i gyd-fynd â hyn.

Un ateb arall, ac un mwy costeffeithiol o bosibl, fyddai creu parc awyr agored neu ofod cyhoeddus lle gellid curadu henebion sydd wedi'u tynnu i lawr ochr yn ochr â gwybodaeth a chyd-destun sy'n delio ag agwedd ddadleuol y cerflun neu'r coffâd hwnnw er bod y dystiolaeth a ddaeth i law yn amwys am rinweddau gwneud hyn.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa asesiad y mae wedi'i wneud o oblygiadau ariannol tynnu cerfluniau i lawr (mewn achosion lle mae cymunedau lleol wedi clustnodi cerflun i gael ei dynnu i lawr) a sut bydd yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff treftadaeth i sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud gwaith pellach yn y maes hwn.

Wrth ystyried rôl ein hamgueddfeydd yn y drafodaeth hon, mae'n werth nodi y gallai fod achosion lle mae arteffactau dadleuol yng nghasgliadau ein hamgueddfeydd cenedlaethol. Er na wnaethom ystyried achosion o'r fath yn fanwl iawn, cytunwn y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ein hamgueddfeydd neu ein sefydliadau cenedlaethol yn ymgynghori'n briodol â chymunedau ar barhau i gadw a/neu arddangos yr arteffactau hyn yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

4. Addysg a choffáu yn y dyfodol

Mae cyfleoedd o'n blaenau i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddathlu ein hanes a'n diwylliant amrywiol. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd, a gweithio gyda chymunedau, i ddathlu Cymru a bywyd Cymru.

Addysg ac ymwybyddiaeth

73. Gwnaeth nifer sylweddol o dystion sylwadau ar rôl gadarnhaol codi ymwybyddiaeth o ddadleuon cyfredol ynghylch pwy sy'n cael eu coffáu.

74. Tynnodd yr Athro Merfyn Jones sylw at bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth:

"[...] mae angen codi ymwybyddiaeth ac i weddill cymdeithas ddeall pwysigrwydd y briw a'r poen mae llawer o'r delweddau yma yn eu creu—ond codi ymwybyddiaeth yn hytrach na dinistrio delweddau. Ond, fel y mae Bryste wedi dangos, efallai bod angen dinistrio rhai o'r delweddau er mwyn codi ymwybyddiaeth."⁶⁴

75. Roedd rôl addysg yn thema allweddol i gyfranogwyr grŵp ffocws y Pwyllgor. Dywedodd un person mewn grŵp ffocws:

"I think to some extent a lot of this recontextualization actually comes back to education. We need to re-educate ourselves on what the whole idea is behind our commemoration. It seems as though we've forgotten, and it's interesting that because the whole reason why we put these statues up was because to try and help us remember so that we would have a living memory."⁶⁵

76. Dywedodd cyfranogwr arall:

"I think they (the statues relating to slave trading) teach us about who we are as a country, our history and how far we have come as a country. Things have changed and I think it reminds us of the past and kind of gives us a warning that it should never really happen again. The minute you start just deciding to tear that away, you are not giving other

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 26 - 26 Tachwedd 2020

⁶⁵ [Crynodeb Grwpiau Ffocws](#)

children and young people in society a proper education about history.”⁶⁶

77. Dadleuodd cyfranogwr arall fod angen i ni edrych ar ein gorffennol, ceisio ei ddeall a bod methu â gwneud hynny yn beryglus oherwydd bydd yn magu mwy o anwybodaeth a diffyg dealltwriaeth.⁶⁷

78. Dadleuodd yr Athro Merfyn Jones fod y gofeb yng Nghaernarfon i Ryfel De Affrica yn crynhoi cymhlethdod gweithredoedd coffáu cyhoeddus:

“Mi oedd yna ddwy garfan, ond un cofgolofn sydd yna. So, mae'r gofgolofn yna'n cofio'r rhyfel, ond does dim byd yna i gofio'r ffaith bod yr Aelod Seneddol lleol yn gwrthwynebu'r rhyfel. A dyna sydd yn codi, rhywsut. Dyna sut mae rhai o'r pethau yma mor anodd i'w crisialu; mae angen y cyd-destun ac mae angen addysgu o gwmpas y golofn.”⁶⁸

79. Dadleuodd yr Athro Martin Johnes bod y cyfan yn y pen draw yn dibynnu ar addysg ac addysgu pobl am bethau a ddigwyddodd a dysgu pobl i ofyn cwestiynau a meddwl am y cysylltiadau rhwng y gorffennol a'r presennol. Cododd bryderon hefyd nad yw'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yn mynd yn ddigon pell, ac os oes rhai pethau a ddigwyddodd yn ein gorffennol yr ydym am i bob plentyn yng Nghymru eu gwybod, yr unig ffordd i sicrhau hynny yw eu rhoi ar y cwricwlwm cenedlaethol, ac rydym wedi osgoi gwneud hynny.⁶⁹

80. Cytunodd Richard Suggett o'r Comisiwn Brenhinol:

“there is certainly scope in the curriculum for discussion about colonialism and slavery. But I think, more broadly, public engagement means some sort of public debate, and that's what's happening in Bristol in the We Are Bristol movement. Public memorials do, or can, form a focus of debate. Once it's pointed out that a person commemorated may be controversial, then people do engage with that. So, yes, not simply in the curriculum, but outside the curriculum too.”⁷⁰

⁶⁶ [Crynodeb Grwpiau Ffocws](#)

⁶⁷ [Crynodeb Grwpiau Ffocws](#)

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 81 - 26 Tachwedd 2020

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 178 - 26 Tachwedd 2020

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 257 - 3 Rhagfyr 2020

81. Dadleuodd James January-McCann o'r Comisiwn Brenhinol fod angen i hanes lleol fod "yn rhan o'r cwricwlwm addysg hefyd, fel bod pobl yn ymwybodol am hanes eu hardal nhw, fel eu bod nhw wedyn yn gallu ei drafod o."⁷¹

82. Esboniodd Gaynor Legall, Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Goffáu rôl gadarnhaol codi ymwybyddiaeth ar gyfer cydlyniant cymunedol. Dywedodd Gaynor Legall:

"The consequences of the British empire are embodied in me; I'm here because you were there. And to help issues that are to do with cohesion, that are to do with identity and are to do with pride in your country. I'm very proud to be Welsh, and I've learned about Wales, the good and the bad, and I'm still learning about it and I find it fascinating, and I'm sure that, given the opportunity, others will. We need to help young people understand the way in which the world was connected then and the way in which the world is connected now. And I think that history is best when you learn from it, and so we need to—and we're exposing more as there is more research. We find out a fuller picture of history; we're not rewriting it, we're just adding to our knowledge, and increased knowledge is only a good thing, as far as I'm concerned."⁷²

83. Amlygodd Uzo Iwobi, cynghorydd i Lywodraeth Cymru, y ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i greu Cymru fwy cyfartal ac roedd hyn yn gofyn am ddealltwriaeth â llygaid clir o waddol y fasnach mewn caethweision a'r ymerodraeth Brydeinig a'r cyfan roedd hi'n ei gynrychioli.⁷³

Sut yr ydym yn coffáu yn y dyfodol

84. Clywodd y Pwyllgor lawer o syniadau a chynigion ar sut y gallai Cymru symud ymlaen gyda choffáu yn y dyfodol.

85. Un o'r hepgoriadau amlwg o ran cerfluniau yng Nghymru oedd diffyg cerflun o fenyw gydag enw (er bod cynlluniau ar y gweill i godi'r cyntaf - cerflun i'r athrawes Betty Campbell yn Sgwâr Canolog Caerdydd).

86. Dangosodd Sara Huws y broblem gan nodi "dim ond tri cherflun sydd yna o fenywod du ym Mhrydain i gyd; mae mwy o gerfluniau o eifr gydag enwau na

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 260 - 3 Rhagfyr 2020

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 81 - 3 Rhagfyr 2020

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 70 - 28 Ionawr 2021

sydd yna o fenywod o leiafrifoedd ethnig." Ychwanegodd mai dim ond "9 y cant o gerfluniau Prydain sydd o fenywod gydag enw."⁷⁴

87. Cymharodd yr Athro Deian Hopkin y 32 stryd yn y DU sydd wedi'u henwi ar ôl Emmeline Pankhurst, a'r 131 o strydoedd (y mae tair ohonynt yng Nghymru) sydd wedi'u henwi ar ôl yr Arglwydd Curzon a frwydrodd yn erbyn hawliau menywod. Ychwanegodd ein bod wedi coffáu'r rhai sydd wedi gwrthwynebu cynnydd yn fwy na'r rhai sydd wedi brwydro drosto.⁷⁵

88. Dywedodd yr Athro Bill Jones fod ganddo "lot o gydymdeimlad â'r syniad, sy'n cael ei farnu gan rai, i symud i ffwrdd o ddelweddau, sef delw y person, ac i symud draw at fwy o syniad o gael rhyw fath o gofeb mwy celfyddydol yn hytrach na delw, achos mae hwnna'n gallu cynrychioli mwy o grwpiau mewn cymdeithas, nid jest unigolion yn unig."⁷⁶

89. Awgrymodd cyfranogwyr y Grwpiau Ffocws amrywiaeth eang o unigolion y byddai'n addas eu coffáu gan gynnwys Aneurin Bevan, Luisa Calderon, Leo Abse a Jan Morris. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd cyfranogwyr yn ffafrio coffáu grwpiau yn hytrach nag unigolion yn y dyfodol.⁷⁷

90. Nododd llawer o'r cyfranogwyr grwpiau a oedd heb gynrychiolaeth ddigonol gan nodi bod coffáu ar hyn o bryd yn gyfyngedig i un dosbarth a grŵp cymdeithasol penodol. Dywedodd un cyfranogwr:

"Usually commemoration is of white, non-disabled, straight men. We are missing certain social classes. We need statues of influential people of different races. Women who are lesbian, gay, bisexual and trans people. Disabled people. Positive diversity in all its facets in Wales."

91. Yn fwy cyffredinol, dywedodd Gaynor Legall wrth y Pwyllgor eu bod wedi dod o hyd i amrywiaeth o bobl sydd wedi'u heithrio o goffáu cyhoeddus ar hyn o bryd wrth gynnal eu hadolygiad. Dywedodd:

"One of the areas that we identified whilst compiling the audit and report was that there is no commemoration of people with a disability, hardly any commemoration of black people, and very, very few commemorations of women. Those people have been excluded

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 52 - 3 Rhagfyr 2020

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 42 - 26 Tachwedd 2020

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 37 - 26 Tachwedd 2020

⁷⁷ Crynodeb Grwpiau Ffocws

because they weren't included, and so, I think if we're going to develop something that is new, we need to address it from a new standpoint, and the standpoint of Wales as a nation: what we see as important, how would we like to commemorate those individuals, and to make sure that we don't exclude the people who historically—we're talking about bringing history into the future—have been excluded from recognition, never mind commemoration."⁷⁸

92. Dadleuodd Helen Molyneux y gallai awdurdodau cyhoeddus feddwl yn llawer mwy creadigol ynglŷn â sut y maent yn defnyddio arian y maent yn ei gael gan ddatblygwyr drwy'r system gynllunio ar gyfer gwaith da lleol (a elwir weithiau'n gytundebau adran 106).⁷⁹ Tynnodd sylw hefyd at enghraifft Cartagena yn Sbaen a'r ffordd y mae Sbaen wedi defnyddio celf yn llwyddiannus ac yn greadigol i goffáu ei phobl, ei diwylliant a'i hanes mewn ffordd gydlynol.⁸⁰

93. Nododd Jane Hutt AS y Pedwerydd Plinth gwag yn Sgwâr Trafalgar a'i raglen dreigl o gelf a choffáu fel un model posib y gellid ei ddilyn yng Nghymru.⁸¹

Ein barn ni

Mae cael eich coffáu â cherflun, plac neu gofeb yn ein mannau cyhoeddus yn anrhydedd prin ac unigryw. Mae'r ddadl hon - ac yn wir ganfyddiadau'r adroddiad hwn - yn dangos y gall rhoi anrhydedd o'r fath fod yn amodol ac ennyn gwrthwynebiad, waeth ar y pryd gan gymheiriaid, neu ar ôl i amser ganiatáu myfyrio neu ailasesu pellach.

Wrth feddwl am ddyfodol sut yr ydym yn coffáu unigolion yng Nghymru, rydym yn arddel yr egwyddor bod gan ein cerfluniau "lesddaliad" ar ein lleoedd cyhoeddus yn hytrach na "rhydd-ddaliad". Hynny yw - mae'r hyn yr oedd pobl yn credu a oedd yn haeddu coffâd ar un adeg yn bwysig, ond nid dyna'r hyn y mae pobl yn credu sy'n haeddu cael ei goffáu erbyn hyn o reidrwydd. Er na ddylem anwybyddu barn cenedlaethau blaenorol ar chwarae bach, ni ddylem feddwl ychwaith bod gan benderfyniadau cenedlaethau blaenorol hawliad parhaol ar ofod cyfyngedig yn ein mannau cyhoeddus.

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 57 - 3 Rhagfyr 2020

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 58 - 10 Rhagfyr 2020

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 59 + 60 - 10 Rhagfyr 2020

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 18 - 28 Ionawr 2021

Mae bylchau clir a hepgoriadau amlwg o ran pwy sy'n cael eu coffáu yn ein mannau cyhoeddus ar hyn o bryd. Prin iawn, os o gwbl, y cynrychiolir menywod; pobl anabl; pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; pobl LGBT+; ac eraill. Hoffem weld y sefyllfa hon yn gwella a thynnu sylw at y ffaith nad oes prinder syniadau na diddordeb a brwdfrydedd o du'r cyhoedd mewn perthynas â'r materion hyn pan ofynnir y cwestiwn, fel y mae enghraifft ddiweddar yr ymgyrch "Monumental Welsh Women" wedi dangos. Hoffem annog Llywodraeth Cymru ac eraill i roi ystyriaeth lawn i fathau eraill o goffáu y tu hwnt i gerfluniau traddodiadol i gynnwys cerfluniau neu weithiau celf cyhoeddus.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi lleoliadau addas ar gyfer cerfluniau neu weithiau celf coffáu o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i nodi lleoliadau addas ar gyfer cerfluniau neu weithiau celf coffáu o arwyddocâd cenedlaethol yng Nghymru i fynd i'r afael â'r tangynrychiolaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

Bydd addysg a chodi ymwybyddiaeth o'n hanes yn allweddol i symud ymlaen yn y maes hwn. Mae yna gynlluniau placiau coffa yng Nghymru eisoes ond mae cwmpas y rhain wedi'i gyfyngu i ardal neu bwnc penodol gan amlaf.⁸² Rydym o'r farn bod cyfle i Lywodraeth Cymru (a'i holnydd yn y Chweched Senedd) fanteisio ar egni a brwdfrydedd y ddadl gyhoeddus gyfredol am ein gorffennol a phwy sy'n cael eu coffáu i sefydlu cynllun 'Plac y Ddraig' cenedlaethol newydd ar gyfer coffáu cyhoeddus yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Byddai sefydlu "sgwrs genedlaethol" ar y set gyntaf o blaciau ar gyfer cynllun o'r fath yn helpu i godi mwy o ymwybyddiaeth o'n hanes a sut mae'n berthnasol i'r Gymru sydd ohoni a Chymru'r dyfodol.

Dylid sicrhau cyllid priodol wrth greu'r cynllun, gyda phob ardal awdurdod lleol yn cymryd rhan yn y set gyntaf o blaciau coffa o fewn fframwaith cenedlaethol a oruchwylir gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod pob partner, yn enwedig awdurdodau lleol, sefydliadau treftadaeth ac

⁸² Gweler: Placiau Glas | Croeso i Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk); [Abertawe - placiau glas](#) [Abertawe](#); [Placiau Porffor - Menywod Nodedig yng Nghymru](#) ac eraill o amgylch Cymru

amgueddfeydd, a'r trydydd sector yn cyfrannu at ddylunio a gweithredu cynllun o'r fath a symud yr agenda hon yn ei blaen.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, elusennau, a'r sector treftadaeth i greu cynllun plac cenedlaethol newydd o goffáu cyhoeddus yn unol â'r egwyddorion a'r meini prawf a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
26 Tachwedd 2020	Yr Athro Bill Jones, Yr Athro Merfyn Jones Yr Athro Deian Hopkin Yr Athro Martin Johnes, Prifysgol Abertawe Dr Simon John, Prifysgol Abertawe Abu-Bakr Madden Al-Shabazz Richard Suggett, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru James January-McCann, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
3 Rhagfyr 2020	Gwilym Hughes, CADW Gaynor Legall, Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Archwiliad o Goffáu yng Nghymru Hadassah Radway, Race Council Cymru Nelly Adam, Mae Bywydau Du o Bwys Richard Bingley, Save Our Statues
10 Rhagfyr 2020	Sara Huws, East End Women's Museum Dr Sarah May, Prifysgol Abertawe Helen Molyneux, Monumental Welsh Women Y Cyngorydd Cefin Campbell, Cyngor Sir Gâr
28 Ionawr 2021	Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru Uzo Iwobi, Llywodraeth Cymru

	Emma Bennett, Llywodraeth Cymru
--	---

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
STAT01	Ymateb gan unigolyn
STAT02	Ymateb gan unigolyn
STAT03	Ymateb gan unigolyn
STAT04	Ymateb gan unigolyn
STAT05	Ymateb gan unigolyn
STAT06	Dr Nick Hodgkin
STAT07	Ymateb gan unigolyn
STAT08	Ymateb gan unigolyn
STAT09	Ymateb gan unigolyn
STAT10	Ymateb gan unigolyn
STAT11	Ymateb gan unigolyn
STAT12	Ymateb gan unigolyn
STAT13	Ymateb gan unigolyn
STAT14	Archif Menywod Cymru
STAT15	Ymateb gan unigolyn
STAT16	Ymateb gan unigolyn
STAT17	Ymateb gan unigolyn
STAT18	Ymateb gan unigolyn
STAT19	Ymateb gan unigolyn
STAT20	Ymateb gan unigolyn
STAT21	Ymateb gan unigolyn
STAT22	Ymateb gan unigolyn